# PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

**Dyddiad:** 9 Chwefror 2000
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
**Teitl:** Cynllun Datblygu Gwledig

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn tanlinellu'r materion yn y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) sy'n berthnasol i ddatblygu economaidd ac yn esbonio'r berthynas rhwng y Cynllun hwnnw a Dogfen Rhaglennu Sengl (SPD) Amcan 1. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

## Cefndir

2. Rhan o'r cytundeb rhwng Penaethiaid Llywodraeth yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwygiadau Agenda 2000 ym mis Mawrth 1999 oedd darparu Rheoliad Datblygu Gwledig newydd ar gynorthwyo datblygu gwledig. Yn ôl y Rheoliad, yr oedd yn ofynnol cyflwyno Cynllun Datblygu Gwledig i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w ystyried erbyn 3 Ionawr 2000. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn ar 14 Rhagfyr, cyflwynwyd Cynllun ar gyfer Cymru i'r Comisiwn ar 22 Rhagfyr 1999. Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd Christine Gwyther AC, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi datgan bod y Cynllun yn dderbyniol. Bydd cyfnod o chwe mis o negodi yn dilyn.

3. Mae'r Rheoliad newydd, y bwriedir iddo symleiddio ac integreiddio'r ffyrdd o fynd i'r afael â datblygu gwledig a gynhwyswyd mewn naw rheoliad blaenorol, bellach yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o weithredu amrediad eang o gynlluniau. Bydd y cynlluniau hynny ar gael ym mhob Aelod-wladwriaeth - nid yn unig yn yr ardaloedd sydd wedi'u penodi o dan drefn Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliad yn ategu diwygiadau yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy feithrin dull integredig o fynd i'r afael â datblygu gwledig a thrwy gydnabod y cyfraniad ehangach y mae ffermio yn ei wneud i gymunedau cefn gwlad.

4. Mae'r Cynllun y darparu gorolwg strategol o fesurau Datblygu Gwledig ledled Cymru ac ar draws pob rhaglen Ewropeaidd a mecanweithiau cynnal eraill. Mae adran 6 yn nodi dull strategol o fynd i'r afael â datblygu economi, cymdeithas ac amgylchedd cymunedau gwledig ac yn nodi cysylltiadau â rhaglenni eraill, gan gynnwys y rhaglen Amcan 1.

5. Mae gweinyddu'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn seiliedig ar ddewis o fesurau posibl. Bydd ffynhonnell cyllid Ewropeaidd a'r fframwaith cynllunio ar gyfer y mesurau hyn yn amrywio, gan ddibynnu a yw'r mesurau yn cael eu cymhwyso mewn ardal Amcan 1, ardal Amcan 2 neu

ardal drosiannol neu mewn ardal nas dynodwyd.

6. Mae’r Rheoliad Datblygu Gwledig yn darparu mecanwaith ar gyfer cefnogi nifer o wahanol ddulliau o helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Gymru wledig drwy Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF). Mae’r offer hyn yn cynnwys pedwar "mesur atodol" y gellid eu rhoi ar waith ar hyd a lled Cymru. Dyma’r mesurau hynny:

- Cymorth i ffermwyr ymddeol yn gynnar
- Lwfansau iawndal ar gyfer ffermio mewn ardaloedd llai ffafriol
- Cymorth i gynlluniau amaeth-amgylcheddol
- Cymorth i goedwigo tir amaethyddol

O’r mesurau hyn, y cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn unig sy’n orfodol; mae gan yr Aelod Wladwriaeth ddisgresiwn yngln ag a ddylid rhoi’r mesurau eraill ar waith.

7. Heblaw am y mesurau atodol a restrir uchod, bydd cyllid Ewropeaidd ar gyfer datblygu gweldig yng ***Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd*** yn dod o fewn cwmpas Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1.

8. Mae’r mesurau ychwanegol sydd ar gael yn **Nwyrain Cymru** o dan y Rheoliad wedi’u rhestru isod. Mae gan y Cynulliad ddisgresiwn yngln ag a ddylid mabwysiadu’r rheoliadau hyn o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig. O fewn ardal Amcan 2, bydd y mesurau yn ategu’r rheini a nodwyd yn y Ddogfen Rhaglennu Sengl berthnasol.

- Buddsoddi mewn daliadau amaethyddol
- Helpu pobl ifanc i ddechrau ffermio
- Hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer ffermwyr a phobl eraill sy’n ymwneud ag amaethyddiaeth a gweithgareddau’n ymwneud â choedwigaeth
- Gwella’r ffordd y mae cynnyrch amaethyddol yn cael ei brosesu a’i farchnata
- Coedwigaeth (rheoli coedwigoedd a datblygu coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy, gwella adnoddau coedwigol a’u cynnal a’u cadw, ac ymestyn ardaloedd coedwigol)
- Annog pobl i addasu a datblygu ardaloedd gweldig

**Ariannu**

9. Caiff cymorth Ewropeaidd ar gyfer y pedwar mesur atodol ledled Cymru ei ariannu o’r elfen Gwarant yn EAGGF, fel yn achos y rhan fwyaf o fesurau Rheoliad Datblygu Gwledig yn Nwyrain Cymru (er ei bod yn bosibl i adnoddau Amcan 2 helpu rhai gweithgareddau datblygu gwledig). 154 miliwn Ewro y flwyddyn yw cyfran y Deyrnas Unedig o’r arian (tua £100 miliwn), ac mae £12.6 miliwn o’r swm hwnnw wedi’i neilltuo ar gyfer Cymru bob blwyddyn. Gellir cynyddu’r arian sydd ar gael ar gyfer y mesurau atodol drwy fodiwleiddio taliadau cymhorthdal i ffermwyr ar draws y DU. Mae cynigion ar gyfer cynllun modiwleiddio yn destun proses ymgynghori ar hyn o bryd. Mae adran 8 o’r Cynllun (Tabl 8.2) yn nodi dyraniadau ariannol ar

gyfer mesurau penodol.

**Materion Datblygu Economaidd**

10. Caiff y fframwaith cyffredinol ar gyfer rhoi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith ei bennu gan y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Mae'r dull strategol a nodir yn yr RDP hefyd yn adeiladu ar y datganiad cynhwysfawr ar y *Gymru Wledig,* a gyhoeddwyd i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 1999 gan Bartneriaeth Wledig Cymru, corff ymgynghorol sydd ag aelodaeth eang ac sy'n adlewyrchu diddordebau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Nodwyd y ddogfen *Cymru Wledig* gan y Cynulliad Cenedlaethol a chytunodd i gymryd i ystyriaeth waith y Bartneriaeth wrth hybu'r economi wledig drwy ddatblygu polisïau a rhaglenni cyson.

11. Mae angen pecyn cynhwysfawr o fesurau i fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gweldig Cymru, o ystyried yr anawsterau sy'n eu hwynebu, megis y newidiadau strwythurol sydd eu hangen i adfywio'r sectorau amaethyddol a choedwigol, a'r anfanteision daearyddol sy'n ganlyniad i fyw ar y cyrion. Bwriedir i'r Cynllun ddarparu'r sylfaen gyson hon ar gyfer y camau sydd i'w cymryd o dan y rhaglen Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y rhaglen Amcan 2 mewn rhannau o Ddwyrain Cymru, y rhaglen Amcan 3 ledled Dwyrain Cymru, a'r mentrau LEADER+ ac INTERREG, ynghyd â'r mesurau a ariennir gan EAGGF sydd â'u manylion isod.

12. Er bod yr adnoddau a oedd ar gael o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig yn gymharol gyfyngedig, mae'r lefelau uwch o gyllid Ewropeaidd y rhagwelir y byddant ar gael yn gyffredinol yn cynnig cyfle i newid economi'r Gymru wledig a chyfrannu, ynghyd â chronfeydd eraill, at ymledu ffyniant, gan godi Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn gyffredinol a sicrhau datblygu cynaliadwy ledled y Gymru wledig. Bydd yn rhaid newid rhaglenni'r Cynulliad, a gefnogir gan amrediad o gymorth Ewropeaidd gan gynnwys cyllid EAGGF o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig, fel eu bod yn cyflawni hyn mewn ffordd sy'n sensitif i'r amgylchedd ac i natur gymdeithasol yr ardal. Byddant wedi'u hanelu at ddatblygu'r sgiliau, yr agweddau a'r isadeiledd economaidd sy'n angenrheidiol i alluogi'r ardal i gystadlu fel economi gyfoes, fodern.

13. Yn fwy arbennig, mae'r dadansoddiad o'r Cynllun yn nodi'r cyfleoedd sydd ar gael i sicrhau dyfodol tymor hir, dichonadwy ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru ac ar gyfer yr economi wledig ehangach, ynghyd â manteision amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol. Ond mae hefyd yn pwysleisio y bydd perygl i ni beri niwed anadferadwy i gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cefn gwlad Cymru os na fanteisir ar y cyfleoedd hyn.

14. Y materion tymor hir, strwythurol hyn oedd y sail ar gyfer datblygu'r datganiad cynhwysfawr ar y *Gymru Wledig* y cyfeiriwyd ato uchod. Mae'r datganiad yn nodi'r saith maes blaenoriaeth canlynol ar gyfer gweithredu a dyma sy'n sail i'r cyfeiriad strategol ar gyfer y Gymru Wledig a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Gwledig.

- hybu datblygu busnes;

- lledu ffyniant economaidd;
- datblygu sgiliau sy’n cyfateb i anghenion busnesau;
- cryfhau cymunedau;
- gwella mynediad i wasanaethau yng nghefn gwlad;
- buddsoddi yn yr isadeiledd gweldig;
- gwella amgylchedd cefn gwlad.

**Blaenoriaethau strategol allweddol**
15. O fewn y cyd-destun eang hwn, dyma yw’r blaenoriaethau strategol allweddol sy’n ymwneud â’r mesurau penodol yn y cynllun hwn ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a datblygu gwledig ehangach yn y Gymru wledig:

- dod yn fwy cynaliadwy yn economaidd, gyda’r pwyslais ar gynnyrch premiwm wedi’i frandio â delwedd amgylcheddol bositif, a llawer mwy o brosesu gwerth ychwanegol ar gyfer prif gynnyrch yn y Gymru wledig;
- gwella arloesedd drwy fabwysiadu sgiliau busnes newydd ac arferion gorau amaethyddol sy’n amgylcheddol sensitif;
- gwella cysylltiadau’r farchnad drwy hybu cydweithio ymhlith cynhyrchwyr a chydweithrediad rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr;
- helpu i sirchau bod defnydd tir yn yr ardal yn fwy cynaliadwy, yn economaidd ac yn ecolegol;
- ehangu sail economaidd y Gymru wledig drwy asesu’r potensial ar gyfer cnydau gwahanol, garddwriaeth organig, cnydau ynni, perlysiau a ffermio pysgod a chregyn;
- helpu teuluoedd sy’n ffermio i addasu, i wneud penderfyniadau doeth ar ddyfodol aelodau’r teulu, ac i arallgyfeirio ffynonellau incwm;
- ategu camau eraill sydd wedi’u hanelu at ehangu’r economi wledig o dan yr amgylchiadau priodol;
- gwella mynediad i wasanaethau, helpu i adfywio cymunedau a hybu cynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau gwledig.

16. Caiff yr amcanion hyn eu cefnogi gan bolisïau clir ar gyfer rheoli cefn gwlad sydd wedi’u hanelu at gadw a gwella amgylchedd priodol ar gyfer datblygu economaidd. Nid yn unig y bydd hyn o fudd i’r diwydiannau sy’n seiliedig ar adnoddau, ond bydd yn annog twristiaeth yn uniongyrchol ac yn gwella delwedd yr ardaloedd mwy gweldig fel lleoliadau busnes.

**Blaenoriaethau a Mesurau**
17. O ystyried y ffactorau uchod i gyd, mae’r cynllun hwn wedi’i ddatblygu ar sail y blaenoriaethau canlynol ac at ddefnydd cyllid Gwarant EAGGF o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig:

*(a) ledled Cymru:*

- cynlluniau amaeth-amgylcheddol (Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig)
- lwfansau iawndal ar gyfer ffermio mewn Ardaloedd Llai Ffafriol
- coedwigo tir amaethyddol.

*(b) yn Nwyrain Cymru, yn ogsytal â'r mesurau ar gyfer Cymu gyfan:*

- gwella'r ffordd y mae cynnyrch amaethyddol yn cael ei brosesu a'i farchnata
- addasu a datblygu ardaloedd gweldig
- cefnogi coedwigaeth a chynnyrch coedwigaeth
- hyfforddiant

18. Os caiff adnoddau digonol eu dyrannu i'r Gymru wledig o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig ar ôl yr adolygiad canol tymor arfaethedig o ddyraniadau i Aelod-wladwriaethau, fe fydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu hefyd ar gyfer ariannu ar y cyd y camau sy'n ymwneud â buddsoddi mewn daliadau amaethyddol. Ni chynigir y dylai unrhyw adnoddau gael eu neilltuo i gynllun ymddeoliad cynnar, o ystyried cost uchel cynllun o'r fath a'r manteision cyfyng y byddai'n eu cynnig.

19. Bydd y Cynulliad hefyd yn ystyried ymhellach a ddylid rhoi blaenoriaeth i gefnogi pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant ffermio, a gwneir penderfyniad ar ôl ystyried canlyniad yr astudiaeth y mae wedi penderfynu ei chomisiynu'n barod i weld pa mor effeithio fyddai mesur o'r fath.

**Monitro**

20. Ystyrir effaith gyffredinol rhoi'r Cynllun ar waith yn Adran 7 o'r Cynllun, tra yn Adran 9, sef yn y disgrifiadau manwl o'r mesurau blaenoriaeth, a'r camau arfaethedig ar gyfer eu rhoi ar waith, ceir dangosyddion perfformiad mwy penodol ar gyfer mesur i ba raddau y caiff targedau ac amcanion penodol eu cyflawni

**Gweithredu**

21. Amlinellir trefniadau gweithredu arfaethedig yn Adran 12 o'r Cynllun. Fel yn achos rhaglenni eraill a ariennir gan Ewrop, Awdurdod Gweithredol newydd y Cynulliad fydd yn bennaf gyfrifol am reoli'r Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd, felly, yn gallu gweithredu mewn ffordd gyson wrth ystyried y mecanweithiau ariannu gwahanol sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig Cymru. Bydd yr Awdurdod Gweithredol yn rheoli'r Cynllun, yn cyflawni'r gwaith ysgrifenyddol ar ran y Pwyllgor Monitro, yn ysgrifennu Adroddiad Blynyddol, ac yn rheoli prosesau monitro ac archwilio. Os yw'n briodol, bydd yr Awdurdod Gweithredol yn debyn cyngor ar bolisi gan Adran Amaeth y Cynulliad.

22. Fel yn achos y rhaglen Amcan 1, y bwriad yw dosbarthu'r rhan fwyaf o'r cyllid Ewropeaidd yng Nghymru drwy becynnau - cymysgwch o gynlluniau gweithredu ar draws rhaglenni a rhai lleol, fel sy'n briodol.

23. Mae’r Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys nifer o fesurau, a bydd y rhan fwyaf yn cael eu rhoi ar waith drwy becynnau lleol. Bydd y rhain yn cael eu rheoli gan amrediad o Gyrff Atebol, megis Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Erthygl 33 - sy’n cynnwys mesurau datblygu cefn gwlad ehangach - yn cael ei rhoi ar waith fel cyfres o becynnau lleol a byddant yn cael eu rhedeg gan bartneriaethau lleol, a fydd yn ategu gweithgareddau rhaglenni Ewropeaidd eraill o fewn yr ardaloedd hynny. Caiff y rheini sy’n rheoli pecynnau eu cyfarwyddo gan Bartneriaeth a chanddi aelodaeth debyg i Bwyllgor Monitro Rhaglenni. Yn achos y mesur Prosesu a Marchnata, cynigir y dylai’r Partneriaethau Bwyd Amaeth - a gaiff eu sefydlu ar lefel ranbarthaol ac is-ranbarthol i wthio Strategaeth Bwyd Amaeth Cymru Gyfan yn ei blaen - gyflawni’r rôl hon.

24. Ceir tîm ymroddedig o fewn yr Awdurdod Gweithredol a fydd yn canolbwyntio ar raglenni a ariennir drwy Gronfeydd Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop. Bydd y staff hyn yn gyfrifol am sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig, mesurau gwledig o fewn Amcan 1 a’r fenter LEADER+. Caiff y broses o weithredu rhai Blaenoriaethau (y mesurau annibynnol) ei chymhlethu am y bydd rhannau gwahanol o Gymru yn cael arian gan ddwy raglen wahanol, sef y Cynllun Datblygu Gwledig yn nwyrain Cymru a Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 yng ngorllewin Cymru. Drwy gael tîm gwledig o fewn yr Awdurdod Gweithredol a thrwy benodi’r un Corff Atebol i weithredu rhai pecynnau rhanbarthol ledled Cymru, dylid lleihau’r anawsterau a allai godi.

25. Mae’r Rheoliad Datblygu Gwledig yn darparu ar gyfer Pwyllgor Monitro Rhaglenni i oruchwylio gweithredu’r Cynllun. Bwriedir i’r Pwyllgor hwn hefyd wneud y monitro sy’n angenrheidiol ar gyfer Menter Gymunedol LEADER+. Dylid sefydlu’r Pwyllgor ar yr un sail â Phwyllgor Monitro Amcan 1 a dylai gynnwys cynrychiolwyr o’r bartneriaeth ehangach o rai sydd â diddordeb mewn materion gwledig yng Nghymru. Caiff rôl y Bartneriaeth Wledig yn y broses hon ei hystyried rywbryd yn y dyfodol. Yn unol â chynlluniau Amcan 1, fe fydd traean aelodau’r Pwyllgor Monitro yn gynrychiolwyr y llywodraeth (gan gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau’r Cynulliad), bydd traean yn bartneriaid cymdeithasol (gan gynnwys busnesau ac undebau llafaur) a draw traean arall o’r sectorau gwirfoddol a chymunedol (gan gynnwys yr economi gymdeithasol). Disgwylir i bartneriaethau sy’n gyfrifol am ddarparu pecynnau rhanbarthol a lleol adlewyrchu’r patrwm aelodaeth hwn, yn ogystal.

**Cyswllt**
Peter Fullerton
Adran Datblygu Gwlad a Thref
Chwefror 2000